

Cofnodion Cyfarfod y 7fed Ionawr 2020

Presennol :- Y Cadeirydd **Gareth Griffiths** a'r Cynghorwyr, Richard Ll. Jones, Elfed Wyn Williams, R Hefin Williams, Phyllis Ellis, Martin Davies ac Rhian Evans - Hill, Gwawr Wyn Roberts, Emma Chappell
Croesawyd Y Cynghorydd Elwyn Jones

Gweddi: Offrymwyd gair o weddi gan Richard LL. Jones

Ymddiheuriadau.

Jane Pierce, Idris Thomas, Lowri Hughes, Aled Green

Datgan buddiant

Dim

Cofnodion Cyfarfod 3ydd Rhagfyr 2019

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Phyllis Ellis **(1)**

R Hefin Williams **(2)**

Materion o'r cofnodion

Cae gyferbyn a Llyn Celyn, Clwt y Bont – Derbyniwyd ymateb gan Adra yn nodi nad oes ganddynt unrhyw ddiddordeb yn y tir, ond bod yna grant ar gael i grwpiau cymunedool wneud cais, cyn belled a bod y gofynion yn cael eu bodloni. Derbyniwyd ymateb gan yr archifdy, a derbyniwyd i'r clerc gysylltu yn ôl i gael amcanbris gwasanaeth ymchwil.

Cais i Adra i ofyn pa rannau o dir sydd ganddynt yn ardal plwyf Llanddeiniolen

Gwaith "Cwmni Arbed" yn Neiniolen – derbyniwyd ymateb gan Sian Gwenllian a chwmni Arbed am Byth yn datgan fod Ian Griffith yn Llywodraeth Cymru ynghyd a Lesley Griffiths AC yn delio gyda'r mater bellach. Mae'r gweinidog Lesley Griffiths wedi cytuno i gomisiynu ail adolygiad annibynnol ac yn disgwyl copi o'r adroddiad yn fuan y flwyddyn newydd yma.

Llythyr Eisteddfod Genedlaethol – derbyniwyd llythyr yn diolch am ein ystyriaeth i gyfraniad o £1000 dros gyfnod o 2 flynedd at apel Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2021

Taith Patagonia – Penderfynwyd gyfranu £150 i Gwion Llywelyn Gryffydd tuag at ei daith i wirfoddoli gyda mudiad yr Urdd i Patagonia hwyrach ymlaen eleni. Edrychwn ymlaen at glywed ei hanes draw yno ar ôl iddo ddychwelyd adref.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Tan y Bryn, Dinorwig – Tystysgrif Cyfreithloni Datblygiad. Cysylltu ac Adran cynllunio i ddatgan ein bod angen mwy o amser i ymweld ayyb

Gosod / Adolygu Praesept

Banc – Nododd y Clerc cyn symyd ymlaen ei bod wedi gorfod cynyddu swm o £1000 i £3000 yn y cyfrif cyfredol, gan fod y banc wedi newid polisiau a balansau ar eu cyfrifon, a hynny wedi ymestyn i £15 o gost i ni gan nad oedd y banc wedi trosglwyddo arian mewn da bryd o cyfrif cadw i cyfrif cyfredol. Awgrymwyd i'r clerc ysgrifennu llythyr i'r banc yn dangos ein siom am y codiad. Oherwydd y newid hyn penderfynwyd cadw balans y cyfrif

cyfredol ar £3000, ac os byddwn yn gwneud taliadau fydd yn fwy na £3000, yna i drosglwyddo arian cyn eu gyrru.

Er mwyn gweld y pictiwr cyfan cyn penderfynnu a gosod praesept, cyflwynwyd mantolen ariannol o dderbyniadau, gwariant a balansau am y cyfnod o Ebrill 1af hyd at Rhagfyr 2019. Rhoddwyd restr o daliadau rydym yn ymwybodol ohonynt am y tri mis nesaf, ac amcangyfrif o weddill taliadau i'w ystyried.

Wedi trafodaeth, pwysu a mesur, a hynny yn anodd gan na wyddom eto o sicrwydd beth fydd ein rol, os bydd, yn dilyn camau gan Cyngor Gwynedd ynglyn a meysydd chwarae y plwyf. Cynigiwyd i gadw y praesept eleni run fath a llynedd ar 31,800 yn hytrach na codi y praesept fel oedd yn y cynllun busnes 3 blynedd.

Cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

Meysydd Chwarae – Rydym wedi ffurfio is-bwyllgor i drafod, a casglu gwybodaeth drwy gyfarfod a swyddogion Cyngor Gwynedd i weld oblygiadau sydd o'n blaenau i benderfynnu ar ddyfodol meysydd chwarae. Gobeithio cyfarfod cyn diwedd y mis hwn ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn.

Annibynniaeth.

Mae sawl Cyngor Sir a Chynghorau Cymuned bellach wedi cael trafodaeth a/neu pleidlais ar annibynniaeth I Gymru bellach. Rydym mwy neu lai yn sicr erbyn hyn, fel mae pethau yn troi allan yn y ty Cyffredin yn Llundain, fod yr Alban o sicrwydd yn mynd am Annibynniaeth gyda posib fod Iwerddon ddim yn bell ar eu sodlau. Yn dilyn sawl pwynt gan cynghorwyr, Cynigiwyd I fynegi barn

Gwawr Wyn Roberts (1) Rhian Evans-Hill (2)

Rhoddwyd pleidlais fod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn cefnogi mewn egwyddor neu gwrthwynebu y bwriad o greu Cymru Annibynnol. Pleidleisiwyd yn unfrydol o Blaid.

O gwmpas y Bwrdd

LleChi - Cafwyd adroddiad byr gan Gwawr ar gronfa LleChi. Mae'r gronfa yn symyd yn sydyn, ac maent o bosib yn mynd i ofyn am estyniad gan fod y dyddiad cau diwedd Mawrth.

Gofynwyd hyn fod ar agenda bob mis gan fod na newyddion yn wythnosol ar hyn o bryd.

Baw Ci – Mae cwynion yn ddyddiol am faw ci yn Penisarwaun, Dywedwyd fod Baw ci holl ffordd ar y pafin trwy'r pentref o groesfan King. **PERCHNOGION CWN – PLIS CODWCH BAW EICH CI.**

Llwybrau Cyhoeddus - Cyflwynwyd llun o lwybr 139, sydd yn dangos y llwybr cyhoeddus, a darn o lwybr cwrteisi sydd wedi ei greu. Mae angen arwyddion gwell i ddangos i gerddwyr lle mae'r llwybr cyhoeddus yn lle bod pawb yn defnyddio y llwybr cwrteisi. Rhaid bod yn ofalus, neu byddwn yn colli y llwybrau hyn. Gyrru y llun Cyngor Gwynedd wedi ei farcio arno lle mae angen arwyddion gwell i'r llwybr cyhoeddus.

Ar y map, gwelir wedi ei farcio mewn gwyrdd, bod yno bostiau yn eu lle, sydd bellach wedi diflanu. Tybed oes modd cael ail osod y postiau gyda'r arwyddion, ac os yn bosib eu rhifo, fel ein bod yn gwybod yn y dyfodol yn union lle byddwn yn son am.

Eco'r Wyddfa – Dywedwyd fod cyfarfod cyhoeddus am ddyfodol yr Eco wedi cymeryd lle,

a bod cynifer wedi troi i fyny i gynnig cymorth i'r pwyllgor presennol. Mae cyfarfod arall wedi ei drefnu, a gobeithir bydd pwyllgor newydd yn cael ei sefydlu i gymeryd yr awenau ymlaen. Rydym fel cyngor yn falch iawn o glywed hyn a gobeithio bydd llwyddiant a dyfodol disglair i'r papur bro am flynyddoedd i ddod. Diolch i'r pwyllgor presennol sydd wedi bod wrth y llyw ers y cychwyn cyntaf am eu gwaith yn rhoi papur mor drylwyr at ei gilydd, gyda hynt a hanes am ein hardal leol. Diolch a pob dymuniad da.

Bont ger Brynrefail – Mae'r bont wedi cael ei tharo ers misoedd bellach, ac oherwydd nad yw wedi ei thrwsio, nid oes llwybr heibio iddi, llwybr oedd yn cael ei ddefnyddio yn aml. Cysylltu a'r Cyngor Sir i weld pryd mae wal y bont yn debygol o gael ei thrwsio.

Llwybr I Cegin Arthur – Nid ydym byth wedi clywed gan y Cyngor Sir beth sydd yn digwydd ar y llwybr lle mae'r coed wedi eu torri yn fler a'u gadael. Mae'n edrych yn debyg fod yr un peth wedi digwydd yn y goedwig ger Ynys Iago. Cysylltu eto gyda Cyngor Gwynedd.

Cadarnhau Taliadau

503 – 240.00

504 – 150.00